**Papur y Bwrdd (19)**

**Papur y Bwrdd i'w nodi**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

---

## Cofnodon Cyfarfod o'r Bwrdd, 11 Hydref 2019

| **Yn bresennol:** | | **Yn gweinyddu:** |
|---|---|---|
| Shan Morgan<br>Ellen Donovan<br>Ann Keane<br>Jeff Farrar<br>Gareth Lynn<br>Andrew Goodall<br>Tracey Burke<br>Andrew Slade<br>Des Clifford<br>Peter Kennedy<br>Natalie Pearson<br>Gawain Evans<br>Robin Bradfield<br>Charlotte Cosserat<br>Andrew Jeffreys<br>Helen Lentle | | Ysgrifenyddiaeth:<br>Chloe Hendry |
| **Ymddiheuriadau:**<br><br>David Richards | | |

**Papur y Bwrdd (19)**

## 1. Croesawu

Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bob un i'r cyfarfod, gan gynnwys Charlotte (aelod o'r Bwrdd Cysgodol) i'w thrydydd cyfarfod a Robin Bradfield o TUS. Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol ymddiheuriadau Andrew Slade ar gyfer hanner cyntaf y cyfarfod.

## 2. Cyflawni blaenoriaethau'r Prif Weinidog – darparu her ychwanegol

2.1 Rhoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol adborth o'i thrafodaethau a'i chyfarfodydd diweddar gyda'r Prif Weinidog. Roedd hyn yn cynnwys y cyfarfod â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol i drafod blaenoriaethau'r Prif Weinidog a'r cyfleoedd ar gyfer ychwanegu gwerth pellach i'r Sesiynau Her presennol. Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod y cyfarfodydd yn rhai cadarnhaol ac eglurodd fod y Prif Weinidog wedi trafod y dylai'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, gan sicrhau bod heriau allanol yn cael eu cyflwyno a phenderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael eu gwneud.

2.2 Yn ystod y trafodaethau hynny, roedd y Prif Weinidog wedi awgrymu y dylai'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ddarparu her ychwanegol ar gyfer y chwe maes trawsbynciol o'r Rhaglen Lywodraethu, gan ychwanegu hefyd datgarboneiddio, tlodi a bioamrywiaeth. Roedd y Prif Weinidog hefyd wedi pwysleisio pwysigrwydd partneriaeth gymdeithasol, bioamrywiaeth ac un gwasanaeth cyhoeddus mewn digwyddiadau a chyfarfodydd diweddar, yn ogystal â chyni cyllidol, Brexit a'r newid yn yr hinsawdd.

2.3 Ystyriodd yr Ysgrifennydd Parhaol y chwe maes a oedd eisoes wedi bod yn destun sesiynau her dan arweiniad yr Ysgrifennydd Parhaol a chydnabu'r her allanol y byddai'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn ei darparu, a fyddai'n mynd y tu hwnt i'r gwaith trawslywodraethol sy'n cael ei ddatblygu yn y maes hwn.

2.4 Gwnaeth y Cyfarwyddwyr Anweithredol sylw bod y trafodaethau yn ddefnyddiol ac yn adeiladol. At hynny, ystyriasant y cyfle i ddod â materion y dydd manwl neu flaenoriaethau polisi unigol at y Bwrdd, sy'n codi o'r Sesiynau Her.

2.5 Croesawodd aelodau'r Bwrdd y safbwynt newydd y gallai'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ei ddarparu a chafwyd trafodaeth ynglŷn â sut y gallai hyn sicrhau mwy o fomentwm ac ynni i flaenoriaethau maniffesto, yn ogystal â chanolbwyntio ar Brexit.

**Papur y Bwrdd (19)**

2.6 Canolbwyntiodd trafodaethau eraill y Bwrdd ar gyfleoedd ar gyfer mecanweithiau adrodd yn ôl (y tu hwnt i gyfarfodydd dwyochrog yr Ysgrifennydd Parhaol gyda’r Prif Weinidog), y posibilrwydd ar gyfer gwahodd y Cynghorwyr Arbennig perthnasol i Sesiynau Her a rhoddwyd ystyriaeth hefyd i gynnal sesiynau a fyddai’n dod at wraidd y mater yn gysylltiedig â risg a lliniaru.

2.7 Cydnabuwyd y cysylltiadau â’r gwaith sy’n cael ei wneud ar y system rheoli cynnydd corfforaethol ar gyfer sicrhau mwy o gysondeb wrth ei defnyddio a bod hyn hefyd yn mynd i fod o gymorth i wella’r mecanwaith adborth ar gyfer Gweinidogion. Trafododd y Bwrdd hefyd fod angen sicrhau na fyddai mwy o fiwrocratiaeth yn perthyn i’r broses sesiynau her, yn fwy na’r hyn a fodolai eisoes. Darparodd Andrew Jeffreys ddiweddariad ar y broses gyllidebu bresennol, y gwahanol ffyrdd o weithio yn unol â’r broses honno a’r profiadau a gafwyd drwy weithio’n unol â hi a’r hyn a ddysgwyd.

2.8 Cytunodd y Bwrdd i barhau gyda rhaglen beilot o feysydd â blaenoriaeth, fel yr amlinellwyd gan y Prif Weinidog, ac i gynnwys dau Gyfarwyddwr Anweithredol ym mhob Sesiwn Her beilot. Cytunwyd hefyd y byddai adroddiadau at wraidd y mater yn cael eu cynnal gan y Bwrdd o’r cyfarfod nesaf ymlaen, yn ôl y gofyn.

3.1 Darparodd Des Clifford grynodeb o bolisi Llywodraeth Cymru ynglŷn â Brexit. Cydnabu Des ‘Dyfodol Mwy Disglair’ a gyhoeddwyd bythefnos yn ôl, a pharhad y paratoadau ar gyfer y posibilrwydd o ymadael â’r UE heb gytundeb ar 31 Hydref. Disgrifiodd Des 43 o offerynnau statudol sy’n cael eu paratoi a’r gwaith a oedd wedi ei wneud i baratoi ar gyfer yr achos yn y Goruchaf Lys.

3.2 Rhoddodd Des ddiweddariad ar y datblygiadau gwleidyddol diweddaraf a’r trefniadau ymgysylltu a’r gwaith sy’n parhau gyda Llywodraeth y DU, yn ogystal ag amlinellu’r gyfraith mewn perthynas ag estyniad, fel yr ysgrifennwyd yn y ddeddfwriaeth. Dywedodd Des fod cyfres o faterion tymor byr, tymor canolig a hirdymor yn parhau ar gyfer Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran sicrhau bod rhywbeth yn dod yn lle cyllid yr UE, yr economi a dyfodol y Deyrnas Unedig a datganoli.

3.3 Tynnodd Des sylw at gyhoeddi ‘Diiwygio Ein Hundeb’, o 10 Hydref. Rhoddodd drosolwg o’r ddogfen, sy’n cynnwys 20 o bwyntiau i ysgogi trafodaeth, ar ôl canlyniadau ymadael â’r UE.

3.4 Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol y sylwadau gan y Bwrdd.

3.5 Trafododd aelodau'r Bwrdd y newidiadau sydd ar fin dod yn sgil y symudiadau cynyddol yng Nghanolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru), yr uned ymateb i argyfyngau tymor byr, a'r pwyllgor gweithrediadau newydd, sy'n cael ei rhoi ar waith i fynd i'r afael â 'busnes fel arfer' newydd ar ôl ymadael â'r UE. Ystyriodd yr aelodau ymwybyddiaeth y Gweinidogion o'r cyfyngiadau ar adnoddau a'r pwysau sydd yn y sefydliad, gyda phob rhan o'r sefydliad yn cael ei heffeithio, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan Brexit.

3.6 Rhoddodd Andrew Jeffreys drosolwg o sefyllfa Llywodraeth Cymru o ran cyllid mewn perthynas â Brexit.

3.7 Ymunodd Andrew Slade â'r Bwrdd a rhoddodd ddiweddariad o gyfarfod diweddar y Penaethiaid Adrannau.

## 4. Adroddiad Cyllid

4.1 Rhoddodd Gawain Evans drosolwg o'r cyllid sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad, a darparodd adborth hefyd o gyfarfod a gafodd yn ddiweddar â'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, lle'r oedd y Gweinidog wedi gofyn am arwyddion o gostau ychwanegol 'Brexit heb Gytundeb'. Eglurodd Gawain fod darn o waith ehangach ar gyfer sicrhau nad oes unrhyw beth yn cael ei gyfrif ddwywaith a phwysleisiodd unwaith yn rhagor fod y Gweinidog wedi gofyn i grwpiau barhau i fantoli'r cyfrifon.

4.2 At hynny, cydnabu Gawain yr ymdrech mae'r timau wedi ei wneud i sicrhau canlyniadau drwy fod ar frig y tabl cynghrair o bob adran arall o'r Llywodraeth.

4.3 Trafododd y Bwrdd ddiben cynnwys yr adroddiad cyllid fel eitem sefydlog ar yr agenda, a herio ble a sut y gallent ddarparu mwy o werth yn eu rôl fel aelodau'r Bwrdd.

4.4 Croesawodd y Bwrdd arbenigedd ar yr eitemau penodol y dylai aelodau eu hystyried wrth graffu ar yr adroddiad cyllid a nodi y gallai Brexit arwain at ganlyniadau niweidiol.

**CAM GWEITHREDU 1:** Gawain i lunio rhestr wirio o'r mathau o gwestiynau treiddgar y gallai'r Bwrdd eu hystyried wrth adolygu'r adroddiad cyllid.

4.5 Cafwyd trafodaethau pellach ynghylch dulliau eraill o graffu ar yr adroddiad cyllid, a chafodd rôl yr Is-bwyllgor Cyllid a fforymau eraill, fel prosesau craffu Gweinidogol, eu hamlinellu i'r aelodau gan Gawain.

4.6 Cytunodd y Bwrdd y dylai Gawain dynnu sylw aelodau'r Bwrdd at unrhyw rannau o'r adroddiad cyllid a oedd yn peri pryder.

**CAM GWEITHREDU 2:** GE ac AJ i roi dalen o bapur A4 yn amlinellu'r holl brosesau craffu ar gyllid a llymder y rheolaethau.

## 5. Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol a Diweddariadau'r Is-bwyllgor

5.1 Myfyriodd yr Ysgrifennydd Parhaol ar gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ddiweddar ynglŷn â chyfrifon cyhoeddus blynyddol Llywodraeth Cymru ac eglurodd beth y gallai'r sesiynau ddiwedd mis Hydref a dechrau mis Tachwedd yn canolbwyntio arnynt. Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i Gawain Evans a'i dîm am eu help i baratoi ac adolygu'r cyfrifon a oedd wedi cael eu gwneud ers y flwyddyn flaenorol.

5.2 Rhoddodd Ann Keane ddiweddariad ar waith diweddar y Pwyllgor Archwilio a Risg ac amlinellodd y byddai Cylch Gorchwyl newydd yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf, sy'n digwydd yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 14 Hydref.

5.3 Darparodd Jeff Farrar drosolwg o'r gwaith y bu'r pwyllgor tâl cydnabyddiaeth yn canolbwyntio arno; yn arbennig mewn perthynas â chynllunio at olyniaeth, yn unol â'r pwysau presennol ar adnoddau.

5.4 Cydnabu'r Ysgrifennydd Parhaol ymddiheuriadau David Richards.

## 6 Unrhyw Fater Arall

6.1 Cyn agor y cyfle i drafod 'Unrhyw Fater Arall' i'r Bwrdd, diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i Jeff Farrar am y gwaith y mae ef wedi ei wneud ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Nododd fod Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn gweithio arnynt ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau dull mwy cadarn o edrych ar gynnydd yn Llywodraeth Cymru, heb fod yn feichus.

6.2 Cafwyd trafodaeth fer ynglŷn â'r camau gweithredu heb eu cymryd o'r cyfarfod blaenorol, yn arbennig yr adolygiad sylfaenol a datgelwyd bod y camau ar y gweill.

6.3 Darparodd Peter Kennedy drosolwg byr o'r wybodaeth ar y dangosfwrdd yn y papurau i'w nodi, a chytunodd yr aelodau fod angen cynaliadwyedd yn y sefydliad ar gyfer y tymor hir.

**Papur y Bwrdd (19)**

6.4 Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i Helen Lentle am ymuno â'r Bwrdd fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a chloi'r cyfarfod gyda chrynodeb o'r camau gweithredu a gymerwyd.

**Camau yn codi yn y cyfarfod o'r Bwrdd**

| **CAM GWEITHREDU** | **SWYDDOG ARWEINIOL** | **SEFYLLFA DDIWEDDARAF** |
|---|---|---|
| **CAM GWEITHREDU 1:** GE i lunio rhestr wirio o'r math o gwestiynau y dylai aelodau'r Bwrdd eu cadw mewn cof wrth adolygu'r adroddiad cyllid, er mwyn sicrhau gwerth am arian. | Gawain Evans | Parhaus |
| **ACTION 2:** GE ac AJ i ddarparu dalen o bapur A4 i'r Bwrdd sy'n amlinellu'r broses graffu ar gyllid a llymder y rheolaethau. | Gawain Evans ac Andrew Jeffreys | Parhaus |

**Camau gweithredu yn cael eu dwyn ymlaen o 13 Medi 2019**

| **CAM GWEITHREDU** | **SWYDDOG ARWEINIOL** | **SEFYLLFA DDIWEDDARAF** |
|---|---|---|
| **CAM GWEITHREDU 1:** Ystadegau i gael eu cylchredeg ar allu a chapasiti staff cyfrwng Cymraeg yn y sefydliad a diweddariadau ar gynnydd i gael eu hadrodd yn flynyddol. | Ysgrifenyddiaeth | Wedi'i gwblhau |
| **CAM GWEITHREDU 2:** Cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru i gael ei gylchredeg ymhlith aelodau'r Bwrdd. | Ysgrifenyddiaeth | Wedi'i gwblhau |
| **CAM GWEITHREDU 3:** Cynnwys eitem barhaol ar agenda'r Bwrdd ar gyfer y cyfarfod nesaf ar yr adroddiad cyllid cyfnod 5 | Ysgrifenyddiaeth | Wedi'i gwblhau – ar yr agenda 11/10/19 |

| | | |
|---|---|---|
| **CAM GWEITHREDU 4:** Gwahodd Cyfarwyddwyr Anweithredol i'r Gweithdy Adolygiad Sylfaenol a chynnwys y Bwrdd yng ngham trafodaethau'r prosiect. | Natalie Pearson | Parhaus |